Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

... Rhagoriaeth i bawb ... ... Excellence for all ...

Arweiniad atodol ar wrando ar ddysgwyr

Am beth y mae hwn?

Mae'r arweiniad yn cynnig arweiniad pellach i arolygwyr ei ddefnyddio ynghyd â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r holl Lawlyfrau Arolygu.

Ar gyfer pwy y mae hwn?

Pob aelod o bob tîm arolygu.

Pryd ddylid cyflwyno'r arweiniad?

Medi 2004.

Dyddiad cyhoeddi: Haf 2004

℗ Hawlfraint y Goron 2003. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol i ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bo'r holl ddetholiadau a ddyfynnir yn cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu cyfaddasu a'u ffynhonnell a'u dyddiad yn cael ei ddatgan.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.
Ffôn: 029 20 446446
Ffacs: 029 20 446448

Cyflwyniad

Mae'r trefniadau arolygu newydd yn pwysleisio pwysigrwydd anghenion a buddiannau dysgwyr wrth hyrwyddo rhagoriaeth i bawb. Mae gan ddysgwyr hawl i ddatgan barn am ba mor dda mae eu hanghenion yn cael eu bodloni, yn ogystal â hawl clir i ddylanwadu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Cafodd yr egwyddor hon gefnogaeth helaeth yn ymgynghoriad Estyn am y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Mae arolygwyr bob amser wedi treulio amser yn gwrando ar ddysgwyr er mwyn cael gwybodaeth am ansawdd addysg a hyfforddiant a'r safonau mae dysgwyr yn eu cyflawni. Mae trafodaeth gyda dysgwyr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth am eu cyflawniad a'u hagweddau.

Mae'r arweiniad hwn yn cynnig cymorth pellach i arolygwyr ar wrando ar ddysgwyr o bob oedran. Mae'n gosod pwyslais penodol ar wrando ar ddysgwyr a all gynrychioli grwpiau penodol sy'n agored i niwed. Mae'n disgrifio rhai o'r ffyrdd y gall arolygwyr gynnwys y dysgwyr hyn, a sicrhau bod eu barnau'n cyfrannu'n effeithiol at y broses arolygu. Fodd bynnag, dylai arolygwyr ystyried barnau pob dysgwr yn gytbwys, yn ogystal â'r dystiolaeth a geir o arsylwadau uniongyrchol, wrth ffurfio barnau.

Cynnwys	**Tudalen**

Cyflwyniad 1

1 Diben yr arweiniad 1

2 Cwmpas yr arweiniad 1

3 Fframwaith deddfwriaethol 2

4 Diffiniad o'r termau a ddefnyddir yn yr arweiniad hwn 2

5 Egwyddorion 2

6 Cyfathrebu effeithiol 3

6.1 Perthynas 3

6.2 Goresgyn rhwystrau sy'n atal cyfathrebu 4

6.3 Gofyn cwestiynau 5

6.4 Gwrando effeithiol 7

6.5 Sicrhau bod yr arddull cyfathrebu yn cyd-fynd ag anghenion y dysgwr 7

7 Trafod materion sensitif 10

8 Cyfathrebu â dysgwyr sy'n agored i niwed 10

9 Materion sy'n peri risg i'r arolygwyr 13

1 Diben yr arweiniad

Diben yr arweiniad hwn yw helpu arolygwyr gyfathrebu â dysgwyr mewn ffordd effeithiol er mwyn casglu eu safbwyntiau fel rhan o'r broses arolygu.

Yn ogystal, gallai'r arweiniad helpu darparwyr gasglu safbwyntiau dysgwyr fel rhan o'r broses hunan-arfarnu.

Trwy wrando ar ddysgwyr, bydd arolygwyr yn nodi materion y gellir eu dilysu yn ystod sesiynau arsylwi gwersi a chyfarfodydd â staff.

Yn ogystal bydd arolygwyr yn gallu casglu safbwyntiau'r dysgwyr ar faterion y maent yn nodi o dystiolaeth arolygu uniongyrchol ac yn ystod cyfarfodydd â rhieni a gofalwyr a staff.

2 Cwmpas yr arweiniad

Mae'r arweiniad yn berthnasol i bob dysgwr ac i'r broses o arolygu pob darparwr.

Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod pob dysgwr a grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed, yn arbennig, yn cael y cyfle i fynegi eu safbwyntiau ar:

- eu cyflawniadau;
- eu profiadau o waith addysgu, hyfforddi ac asesu;

- pa mor dda y mae profiadau dysgu'n bodloni eu hanghenion a'u buddiannau;
- pa mor dda yw'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir iddynt;
- pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn eu cynnwys yn y broses arfarnu a gwella ansawdd a safonau; a
- pha mor dda y defnyddir adnoddau dysgu.

Mae'r arweiniad yn cyd-fynd â'r fframwaith arolygu cyffredin, arweiniad a deddfwriaeth bresennol.

3 Fframwaith deddfwriaethol

Dyma'r prif Ddeddfau sy'n llywodraethu arolygiadau:

- Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992;
- Deddf Arolygu Ysgolion 1996;
- Deddf Addysg 1997;

- Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;
- Deddf Fframwaith a Safonau Ysgol 1998;
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000; a
- Deddf Addysg 2002.

Mae'r arweiniad hwn yn ystyried y canlynol hefyd:

- Deddf Plant 1989;
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Deddf Addysg 1996;
- Cod Ymarfer ar Anghenion Addysgol Arbennig i Gymru 2002;
- Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru;
- Deddf Safonau Gofal 2000;
- Ar Goll mewn Gofal (Adroddiad Ymchwiliad Waterhouse) 2000;
- Arweiniad ar arolygu amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar (Estyn); a
- Newyddlen 14/01: Cynhwysiad cymdeithasol a chymorth i ddisgyblion (Estyn).

4 Diffiniad o'r termau a ddefnyddir yn yr arweiniad hwn

Dysgwr: plentyn, disgybl, myfyriwr, unigolyn ifanc, cleient, hyfforddai neu ddysgwr sy'n oedolyn.

Darparwr: ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant, darparwr gwaith ieuenctid, cwmni gyrfaoedd, darparwr dysgu oedolion neu sefydliad addysg uwch.

5 Egwyddorion

Mae Estyn wedi ymrwymo i wrando ar safbwyntiau pob dysgwr ac ymateb iddynt fel rhan o'r broses arolygu.

Caiff pwysigrwydd gwrando ar ddysgwyr ei bwysleisio yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd, a gafodd gefnogaeth helaeth yn ystod yr ymgynghoriad.

Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin yn disgrifio sut y dylai arolygwyr ymddwyn er mwyn sicrhau cydweithrediad a hyder y rhai a arolygir. Mae'r fframwaith yn nodi y bydd arolygwyr yn:

- cyflawni eu gwaith mewn ffordd ddidwyll, cwrtais a sensitif;
- arfarnu gwaith y darparwr mewn ffordd wrthrychol;
- adrodd mewn ffordd onest, teg a diduedd;
- cyfathrebu mewn ffordd eglur ac agored;
- ymddwyn er lles a diogelwch y dysgwyr; a
- pharchu natur gyfrinachol yr holl wybodaeth a gesglir yn ystod yr arolygiad.

Dylai arolygwyr ystyried safbwyntiau dysgwyr, staff a rhieni mewn ffordd gytbwys, yn ogystal â'r dystiolaeth a gesglir yn ystod arsylwadau uniongyrchol wrth ffurfio'u barn.

Dylai pob dysgwr gael y cyfle i fynegi eu barn. Fodd bynnag, rhaid sicrhau eu bod yn ymwybodol bod eu cyfraniad yn wirfoddol.

Rhaid i arolygwyr ymgorffori egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a Saesneg yn yr holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pan fyddant yn briodol. Felly, mae'n hanfodol galluogi dysgwyr i gyfleu eu safbwyntiau yn eu dewis iaith.

Yn ogystal, rhaid i arolygwyr alluogi'r dysgwyr hynny nad yw Cymraeg neu Saesneg yn famiaith iddynt neu sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu eraill, i fynegi eu safbwyntiau.

6 Cyfathrebu effeithiol

Mae'r egwyddorion hyn yn sail i waith cyfathrebu effeithiol:

- rhaid ffurfio perthynas dda â'r dysgwr, a'i chynnal;
- dylid rhoi pwyslais ar alluogi'r dysgwr i siarad, ac yna gwrando'n ofalus ar safbwynt y dysgwr; a
- rhaid i'r arddull cyfathrebu fod yn addas ar gyfer oedran gallu ac iaith y dysgwr.

6.1 Perthynas

Mae ffurfio a chynnal perthynas, yn enwedig yn ystod cyfweliadau byr, yn gofyn i'r sawl sy'n cyfweld ddangos parch, didwylledd ac empathi tuag at yr un neu'r rhai a gyfwelir. Yn ogystal, mae'n golygu cydnabod a goresgyn rhwystrau sy'n atal cyfathrebu.

Dangosir **parch** gan ymddygiad sy'n peri i eraill deimlo'u bod yn bwysig, eu bod yn werthfawr a'u bod yn arbennig mewn rhyw ffordd.

Dangosir **didwylledd** gan ymddygiad sy'n cyfleu'r neges eich bod yn unigolyn dynol, y gellir ymddiried ynoch ac nad oes gennych unrhyw beth i'w guddio.

Mae **empathi** yn rhan hanfodol o ymddygiad sy'n dangos eich bod yn ceisio deall byd yr unigolyn arall fel y maent yn ei brofi. Mewn geiriau eraill, rydych yn gwneud ymdrech i'w 'weld yn eu ffordd nhw'.

Mae ymddygiad o'r fath yn cynnwys:

- cyflwyno'ch hun a chofio enw'r person arall;
- sicrhau bod yr amgylchedd yn addas a bod y person arall yn gyffyrddus;
- esbonio diben y cyfarfod;
- gofyn cwestiynau mewn ffordd bwyllog ac eglur;
- dangos eich bod yn gwrando ac yn gofyn cwestiynau er mwyn egluro a sicrhau eu bod yn deall;
- peidio â thorri ar draws neu siarad dros y person arall;
- bod yn ymwybodol o'ch iaith gorfforol ac iaith gorfforol pobl arall, a'r emosiynau y mae'n ei chyfleu;
- ymateb mewn ffordd naturiol ac mor onest ag y gallwch; ac
- osgoi ymddwyn mewn ffordd amddiffynnol.

6.2 Goresgyn rhwystrau sy'n atal cyfathrebu

Mae nifer o **rwystrau** posibl sy'n eich atal rhag cael safbwyntiau dysgwyr.

- Efallai nad ydynt yn gyfarwydd ag unrhyw un yn gwrando arnynt ac efallai na fyddant yn disgwyl i unrhyw un eu cymryd o ddifrif.
- Efallai eu bod o'r farn nad yw oedolion sydd â statws ac awdurdod proffesiynol, ac a allai fod o gefndir cymdeithasol gwahanol iawn iddyn nhw, yn debygol o ddeall eu hanghenion.
- Efallai nad ydynt yn hyderus.
- Efallai fod eu gallu i fynegi eu safbwyntiau yn gyfyngedig, yn enwedig mewn trafodaethau grŵp gydag eraill sy'n fwy rhugl.
- Efallai eu bod yn ofni goblygiadau mynegi safbwyntiau negyddol.

Er mwyn lleihau'r rhwystrau hyn gymaint ag y bo modd, dylai arolygwyr:

- esbonio pwysigrwydd a diben gwrando ar safbwyntiau dysgwyr fel rhan o'r arolygiad cyffredinol;
- mynegi'r hyn yr hoffent ei drafod a pham;
- pwysleisio bod y cam o gyfrannu yn gam gwirfoddol ac y gall y dysgwr(dysgwyr) adael ar unrhyw adeg os nad ydynt yn dymuno aros yn y cyfarfod;
- dweud wrth ddysgwyr na ddylent enwi aelodau unigol o staff yn ystod y drafodaeth;
- esbonio y caiff eu safbwyntiau eu cadw'n gyfrinachol (oni bai eu bod yn dweud unrhyw beth wrth yr arolygydd a allai olygu nad ydynt yn ddiogel);
- pwysleisio na fydd yr hyn y byddant yn ei ddweud wrth yr arolygwyr yn effeithio ar ganlyniadau eu harholiadau neu eu hasesiadau mewn unrhyw ffordd;
- eu cysuro na fyddant yn cael eu henwi na'u hunodi fel unigolion pan fydd yr arolygwyr yn adrodd eu canfyddiadau; ac
- esbonio sut y bydd yr arolygwyr yn adrodd ar eu sylwadau a sut y gallant gael copi o'r adroddiad terfynol.

Wrth weithio gyda grŵp o ddysgwyr, mae'n arbennig o bwysig pennu'r rheolau sylfaenol ar y cychwyn er mwyn galluogi pob aelod o'r grŵp i fynegi eu safbwyntiau a theimlo'n gyffyrddus am wneud hynny. Gallai'r rheolau sylfaenol gynnwys:

- gofyn i bob aelod o'r grŵp wrando ar ei gilydd ac osgoi torri ar draws y rhai sy'n siarad;
- egluro i bawb bod eu cyfraniadau'n rhai gwirfoddol; ac
- atgoffa'r grŵp bod yn rhaid i bawb barchu natur gyfrinachol y broses.

6.3 Gofyn cwestiynau

Er mwyn cael gwybod safbwynt y dysgwr mae'n bwysig anelu am gyfarfod lle mae'r dysgwyr yn siarad a'r arolygydd yn gwrando am o leiaf 80% o'r cyfarfod. Gallai hyn fod yn anodd ei gyflawni ond gallai'r pwyntiau canlynol fod o gymorth.

Dewiswch ddatganiadau a chwestiynau'n ofalus, gan gofio y bydd gwahanol fathau o gwestiynau yn arwain at wahanol ganlyniadau. Felly, er enghraifft:

Math o gwestiwn	Enghraifft	Defnyddiol ar gyfer	Nid yw'n ddefnyddiol ar gyfer
Agored	'Dywedwch wrthyf yr hyn sy'n digwydd pan...' 'Dywedwch wrthyf am y gwaith a wnewch yma.' 'Pa mor dda yr ydych yn ei wneud yma?'	Dechrau'r rhan fwyaf o gwestiynau. Archwilio a chasglu gwybodaeth ar sail eang.	Rhywun siaradus iawn.
Caeëdig	'Sawl gwaith yr wythnos y byddwch yn cael gwaith cartref mathemateg?' 'Â phwy y byddech yn siarad pe byddech yn cael problemau yma?'	Cael atebion penodol, ffeithiol.	Cael gwybodaeth eang.
Holgar	'Beth sy'n digwydd os na fydd pobl yn mynychu'n rheolaidd?' 'A gaiff unrhyw un eu trin mewn ffordd annheg?' 'Sut ydych chi wedi cael cymorth gyda phethau yr oeddech yn eu gweld yn anodd?'	Pennu a gwirio manylion digwyddiadau y maent eisoes yn hysbys neu sy'n codi o atebion i gwestiynau agored.	Archwilio pynciau emosiynol.
Damcaniaethol	'Beth fyddech chi'n ei wneud os...?' 'Pe byddech yn gallu newid un peth am yr ysgol, beth fyddai hwnnw? 'Pe byddai chi yn bennaeth, a fyddech yn gwneud unrhyw beth er mwyn gwella bywydau'r myfyrwyr?	Peri i'r sawl a gyfwelir ystyried y sefyllfa, neu faes newydd, mewn ffordd ehangach.	Os nad oes gan y sawl a gyfwelir brofiad o'r sefyllfa.
Lluosog	Rhes o gwestiynau neu ddatganiadau.	Byth yn ddefnyddiol.	Byth yn ddefnyddiol.
Cymharu	'Pa un sydd orau gennych, A neu B?'	Archwilio anghenion a gwerthoedd.	Pan fo parau o ddewisiadau yn afrealistig.

Dylai arolygwyr ofyn ystod o gwestiynau sy'n ystyried gwahanol agweddau ar y fframwaith arolygu a'r math o ddarpariaeth a wneir ar gyfer y dysgwyr.

6.4 Gwrando effeithiol

Dylai arolygwyr ddangos drwy eu ffordd a'r iaith a ddefnyddir ganddynt, eu bod yn gwrando'n astud ac yn ofalus ar ddysgwyr.

Gallai'r datganiadau a'r cwestiynau canlynol fod o gymorth wrth wirio ac egluro ystyr y dysgwr:

- Mae'n swnio fel pe baech yn dweud bod …… yn digwydd yma. A ydw i'n iawn?
- Mae'n ymddangos eich bod yn teimlo'n ……. am y sefyllfa. A ydw i wedi cael yr argraff gywir?
- Nid wyf yn siŵr fy mod yn eich deall yn llawn. A ydych chi'n dweud ……? Ai dyma a olygwch?

Yn ogystal, gall rhai brawddegau syml helpu siaradwr amharod i barhau:

- Mae hynny'n swnio'n ddiddorol. Dywedwch ragor wrthyf.
- Dywedwch wrthyf am gyfnod arall pan fo...yn digwydd.
- Ewch ymlaen – mae hwn yn ddiddorol iawn.

Caiff y rhain eu mynegi fel gorchmynion yn hytrach na chwestiynau yn aml, er mwyn osgoi'r ateb 'Na allaf' i'r math o gwestiwn 'A ellwch chi ...?

Mae'n bwysig gofalu rhag aralleirio datganiadau'r dysgwyr mewn ffordd sy'n 'arwain y tyst'.

6.5 Sicrhau bod yr arddull cyfathrebu yn cyd-fynd ag anghenion y dysgwr

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y gellir addasu'r cyd-destun a'r arddull cyfathrebu ag oedran a chyfnod datblygiad y dysgwyr. Mae'n bwysig ystyried y ffaith nad yw oedran datblygiadol rhai dysgwyr o reidrwydd yn cyd-fynd â'u hoedran cronolegol a'u cyfnod addysg. Mae hwn yn fwyaf tebygol o ddigwydd yn achos dysgwyr y mae ganddynt anghenion ychwanegol neu anghenion arbennig.

Cyfnod	Lleoliadau	Dulliau	Nodweddion sy'n gysylltiedig ag oedran
BC	• Lleoliadau cyfarwydd gan gynnwys ystafell feithrin, amser cinio a man chwarae y tu allan	• Siarad, gan ofalu tynnu'r plant tawelach i mewn a sicrhau bod yr eirfa yn cyfateb â'u dealltwriaeth; • Arsylwi sut y mae plant yn ymddwyn. • Tynnu lluniau. • Rhannu llyfrau. • Ymuno â chyfnodau chwarae'r plant. • Ymuno yn ystod amser cinio.	Fel arfer yn hapus ag oedolion sy'n ymweld mewn lleoliad cyfarwydd. Geirfa gyfyngedig, felly dadansoddwch yr ymddygiad hefyd. Byddant yn dechrau dysgu sut i fynegi eu teimladau yn unig. Efallai y bydd eu hateb i gwestiynau yn cyfleu'r hyn y credant yr hoffech ei glywed. Efallai y byddant yn siarad am eu profiadau presennol neu fwyaf diweddar pan ofynnir iddynt 'Beth ydych chi'n hoffi ei wneud orau?
CA1	• Dosbarth. • Lle chwarae. • Amser cinio.	• Siarad, gan ofalu tynnu'r plant tawelach i mewn a sicrhau bod yr eirfa yn cyfateb â'u dealltwriaeth. • Rhannu llyfrau a chlywed darllenwyr. • Siarad ag unigolion wrth edrych ar waith yn y dosbarth. • Ymuno â chyfnodau cylch. • Arsylwi yn y dosbarth ac yn ystod yr amser chwarae. • Ymuno yn ystod amser cinio.	Fel arfer yn hapus i siarad ag ymwelwyr â'r ysgol. Efallai yn deall bod yr arolygiad yn bwysig i'r ysgol a'u hathro/hathrawes.
CA2	• Dosbarth. • Lle chwarae. • Amser cinio. • Gallai grwpiau bach gyfarfod yn llyfrgell yr ysgol neu fan tawel arall.	• Sefyllfaoedd megis 'Cynlluniwch ysgol ddelfrydol. A yw hon yn debyg iddi?' • Trafodaeth wedi'i strwythuro ar ystod o bynciau wedi'u tynnu o'r fframwaith arolygu. • Siarad ag unigolion wrth edrych ar waith yn y dosbarth a chlywed darllenwyr. • Arsylwi yn y dosbarth ac yn ystod amser chwarae. • Ymuno yn ystod amser cinio.	Yn debygol o ddeall pwysigrwydd yr arolygiad. Efallai y byddant yn pryderu am fynegi safbwyntiau negyddol. Yn debygol o fod yn gyffyrddus ac yn fwy tebygol o gyfrannu mewn grŵp bach y tu allan i'r dosbarth.

Cyfnod	Lleoliadau	Dulliau	Nodweddion sy'n gysylltiedig ag oedran
CA3 a 4	• Dosbarthiadau. • Amser cinio. • Gallai grwpiau bach gyfarfod yn llyfrgell yr ysgol neu fan tawel arall. • Cyfarfod Cyngor yr Ysgol.	• Trafodaeth wedi'i strwythuro ar ystod o bynciau wedi'u tynnu o'r fframwaith arolygu. • Siarad ag unigolion wrth edrych ar waith yn y dosbarth. • Darllen cofnodion Cyngor yr Ysgol. • Siarad â chynrychiolwyr o Gyngor yr Ysgol a gofyn sut y maent yn ymgynghori â chymheiriaid a pha faterion sy'n codi	Byddant yn deall pwysigrwydd yr arolygiad. Bydd diffyg hyder yn nodwedd ymhlith nifer a byddant yn amharod i siarad mewn grŵp mawr. Yn debygol o fod yn gyffyrddus ac yn fwy tebygol o gyfrannu mewn grŵp bach y tu allan i'r dosbarth.
16-19 ac oedolion	• Ystafelloedd dysgu arferol. • Gweithle arferol. • Ystafelloedd cyffredin y myfyrwyr. • Clybiau leuenctid. • Gallai grwpiau bach gyfarfod yn llyfrgell yr ysgol neu fan tawel arall. • Cyfarfod Cyngor yr Ysgol/Undeb y Myfyrwyr. • Lleoliad dysgu cymunedol	• Trafodaeth wedi'i strwythuro ar ystod o bynciau wedi'u tynnu o'r fframwaith arolygu. • Siarad ag unigolion wrth edrych ar waith yn y dosbarth neu mewn lleoliad lle darperir hyfforddiant yn y gwaith. • Darllen cofnodion Cyngor yr Ysgol/Cyngor y Myfyrwyr neu gyngor dysgwyr sy'n oedolion. • Siarad â chynrychiolwyr myfyrwyr a gofyn iddynt sut y maent yn ymgynghori â chymheiriaid a pha faterion sy'n codi • Dadansoddi holiaduron barn myfyrwyr mewn colegau AB, cwmnïau Gyrfaoedd a Hyfforddiant a darpariaeth dysgu cymunedol i oedolion. • Dadansoddi adroddiad hunan-arfarnu y darparwr er mwyn cyfeirio at ymgynghori â dysgwyr.	Bydd angen mwy o gymorth ar grwpiau sy'n agored i niwed, ond fel arall, bydd cyfathrebu ar lefel oedolion yn aml yn effeithiol. Mae rhai dysgwyr y Fargen Newydd a Skillbuild yn anfodlon cymryd rhan yn eu rhaglenni, ac mae eu hymatebion yn debygol o gael eu dylanwadu gan hyn. Efallai na fydd dysgwyr sy'n oedolion ar y Fargen Newydd wedi arfer â mynegi eu barnau.

7 Trafod materion sensitif

Efallai y bydd rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, o'r farn bod rhai pynciau yn arbennig o sensitif. Efallai y byddant yn mynd yn ddig neu'n ofidus pan drafodir materion o'r fath.

Rhaid i arolygwyr ymddwyn er lles a diogelwch y dysgwyr bob amser.

Trwy wneud hyn:

- ni ddylent wneud unrhyw beth a allai beri pryder neu ofid i ddysgwr;
- ni ddylent wneud unrhyw beth a allai beri amheuaeth ynghylch eu perthynas gyda dysgwr;
- dylent adrodd unrhyw bryderon am ddiogelwch neu les dysgwr i'r awdurdod priodol; ac
- ni ddylent ymyrryd yn bersonol os byddant yn dyst i ymddygiad gwael, oni bai fod diogelwch neu les rhywun mewn perygl.

Wrth drafod materion sensitif, dylai arolygwyr wneud pob dim y gallant er mwyn atal unrhyw drafferthion rhag codi. Fodd bynnag, os bydd unrhyw ddysgwr yn cynhyrfu neu'n digio, dylai'r arolygydd geisio'u lleddfu yn gyntaf a dylent eu hatgoffa y gallant adael y cyfarfod ar unrhyw adeg os y dymunant. Os bydd unrhyw ddysgwr yn dymuno gadael, ond os yw'n parhau i fod wedi cynhyrfu neu'n ofidus, dylai'r arolygydd sicrhau bod y dysgwr yn dychwelyd i fan diogel o'u dewis. Dylai'r arolygydd farnu a oes angen gofyn am gymorth rhywun arall ar yr adeg hon. Rhaid i'r arolygydd adrodd unrhyw ddigwyddiad o'r fath i aelod uwch o staff ar y cyfle cyntaf a rhaid i'r arolygydd ei gofnodi ar bapur.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd dysgwr yn dymuno trafod profiad personol, neu efallai y byddant yn dangos arwyddion o ran eu hymddygiad sy'n peri i arolygydd bryderu am achosion posibl o gam-drin. Os yw'r dysgwr dan 18 oed, dylai'r arolygydd ddilyn gweithdrefnau amddiffyn plant Estyn ar unwaith. Gyda dysgwyr sy'n oedolion ac sy'n agored i niwed, dylid dilyn y gweithdrefnau er mwyn ymateb i gam-drin a gofal amhriodol honedig ymhlith oedolion.

8 Cyfathrebu â dysgwyr sy'n agored i niwed

Mae'n hanfodol sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr sy'n agored i niwed, sef y rhai y gallai eu hanghenion a'u safbwyntiau fod yn wahanol i anghenion a safbwyntiau mwyafrif eu cymheiriaid, yn cael eu cynnwys.

Er mwyn cael gwybod am brofiad y grwpiau hyn o ddysgwyr o'u haddysg neu hyfforddiant, mae'n aml yn ddefnyddiol siarad â nhw yn breifat mewn grwpiau bach o oddeutu pedwar dysgwr, er mwyn lleihau gymaint ag y bo modd, unrhyw rwystrau ychwanegol a allai godi, i'w hatal rhag cyfathrebu fel arall.

Mae dysgwyr sy'n agored i niwed yn cynnwys:

- **Plant ifanc iawn** oherwydd na ystyrir bod ganddynt eu safbwyntiau eu hunain, ac nad oes ganddynt ffordd o fynegi eu safbwyntiau.

  Mae'n debygol y byddant yn teimlo'n fwy cysurus siarad ag arolygydd mewn grŵp bach yn eu lleoliad arferol, ac mae'n debygol y bydd angen i oedolyn cyfarwydd fod gyda nhw. Bydd hyn o gymorth pan fydd iaith fynegol plant yn gyfyngedig neu pan fyddant yn swil yng nghwmni pobl ddieithr.

- **Plant, pobl ifanc ac oedolion y mae ganddynt AAA a/neu anableddau** y rhoddwyd llai o flaenoriaeth i'w safbwyntiau na safbwyntiau eu rhieni neu eu gofalwyr ac anghenion y darparwyr yn draddodiadol. Maent yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd defnyddio iaith lafar er mwyn cyfleu eu safbwyntiau a gorfod dibynnu ar eraill i fynegi eu hymateb. I rai, ni fydd eu hoedran go iawn yn cyd-fynd ag oedran eu datblygiad. Mae'r rhai y mae ganddynt anghenion cymdeithasol, emosiynol neu iechyd meddwl, yn debygol o beidio â meddu ar yr ymddiriedaeth a'r hyder mewn pobl arall, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol.

  Ar gyfer dysgwyr y mae ganddynt anghenion cyfathrebu gwahanol neu ychwanegol, bydd angen i arolygwyr sicrhau cymorth arbenigol gan y rheiny sy'n gallu defnyddio'r dull cyfathrebu priodol. Gallai hwn fod ar ffurf un o'r ieithoedd arwyddion neu'r systemau lluniau, offer TGCh neu Braille er enghraifft.

- **Dysgwyr y mae ganddynt drafferthion iechyd meddwl neu gorfforol** y maent yn dibynnu ar eraill am eu gofal a'u lles, y byddant efallai yn gorfod rhoi blaenoriaeth i ofal meddygol cyn dysgu ac y mae'n debygol y caiff eu rhaglenni addysg neu hyfforddiant eu hamharu.

- **Rhieni yn eu harddegau,** y maent yn wynebu tensiwn rhwng bodloni anghenion eu babanod, bodloni eu hanghenion personol eu hunain a pharhau ag addysg neu hyfforddiant. Yn aml, ni ystyrir y rhai sy'n dadau yn eu harddegau o gwbl.

- **Plant a gaiff eu diarddel o'r ysgol** nad oes ganddynt unrhyw lais yn y broses ddiarddel ac a allai orfod wynebu llawer o amharu ar eu haddysg, cyn cael eu diarddel ac ar ôl hynny. Maent yn debygol o adael byd addysg a hyfforddiant, ond efallai y byddant yn ailymddangos yn y systemau iechyd meddwl neu gyfiawnder troseddol.

- **Plant y gofelir amdanynt** y mae'n hysbys bod y canlyniadau addysgol, cymdeithasol, iechyd a gyrfaoedd yn llawer gwaeth na chanlyniadau eu cymheiriaid. Maent yn fwy tebygol o feddu ar anghenion dysgu, cymdeithasol neu emosiynol ychwanegol a gadael byd addysg a hyfforddiant yn gynnar. Yn ogystal, maent yn debygol o adael byd addysg a hyfforddiant ac ailymddangos yn y systemau iechyd meddwl neu gyfiawnder troseddol. Mae gadael sefyllfa gofal yn gam anodd iawn i'w gymryd.

- **Plant a phobl ifanc mewn darpariaeth addysgol breswyl** y mae'n debygol bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol neu eu bod yn anabl. Mae'n debygol bod rhai o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn blant y gofelir amdanynt hefyd. Efallai eu bod yn bell o'u cartref ac yn gofyn am sylw arbennig o ran eu gofal, eu lles a chamau i'w hamddiffyn rhag niwed.

- **Aelodau o grwpiau o leiafrifoedd ethnig a chrefyddol** a allai ddod ar draws rhwystrau diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol a fydd yn eu hatal rhag cyfleu eu safbwyntiau fel dysgwyr ac a allai fod yn gorfod delio â hiliaeth. Efallai na fydd ganddynt hyder nac yn ymddiried yn y ffaith bod eu safbwyntiau'n bwysig.

  Efallai y bydd angen cymorth dwyieithog ar ddysgwyr y mae'r Gymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, er mwyn cyfathrebu ag arolygwyr.

- **Teithwyr** y mae eu profiadau addysgol yn wahanol iawn i fwyafrif eu cymheiriaid ac y maent yn debygol o wynebu eithrio cymdeithasol. Efallai na fydd ganddynt hyder ac ymddiriedaeth yn y ffaith bod eu safbwyntiau'n bwysig.

- **Ffoaduriaid a cheiswyr lloches** a allai ddod ar draws rhwystrau diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol a fydd yn eu hatal rhag cyfleu eu safbwyntiau fel dysgwyr ac a allai fod yn gorfod delio â hiliaeth. Bydd eu profiadau addysgol yn wahanol iawn i brofiadau eu cymheiriaid a efallai eu bod wedi wynebu trawma.

  Bydd angen cymorth dwyieithog ar nifer o'r dysgwyr hyn er mwyn eu galluogi i gyfathrebu ag arolygwyr.

- Nid yw **plant, pobl ifanc ac oedolion y maent wedi cael eu cam-drin** yn debygol o feddu ar yr hyder a'r ymddiriedaeth i gyfathrebu'n rhydd ag oedolion anghyfarwydd. Efallai y bydd ganddynt hanes o gael eu hannog i gadw cyfrinachau ac o eraill yn peidio â'u credu.

- **Caiff oedolion sy'n agored i niwed** eu diffinio fel pobl sy'n 18 oed neu'n hŷn, ac y mae angen gwasanaethau gofal cymunedol arnynt oherwydd anabledd meddwl neu anabledd arall, eu hoedran neu salwch ac nad ydynt yn gallu gofalu amdanynt eu hunain, neu nad ydynt yn gallu amddiffyn eu hunain rhag niwed sylweddol neu ecsbloetio difrifol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys pobl y mae ganddynt anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, pobl hŷn a phobl anabl.

  Ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed ac y mae ganddynt anghenion cyfathrebu ychwanegol neu wahanol, bydd angen i arolygwyr fanteisio ar gymorth eraill sy'n gallu defnyddio'r dull priodol o gyfathrebu â nhw. Gallai hwn fod ar ffurf un o'r ieithoedd arwyddion neu'r systemau lluniau, offer TGCh neu Braille er enghraifft.

9 Materion sy'n peri risg i'r arolygwyr

Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol o'r peryglon a allai godi yn ystod cyfweliadau â dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyhuddiadau o ymddygiad neu sgwrs amhriodol;
- y dysgwr yn honni ei fod yn ofidus oherwydd ffordd yr arolygydd neu ei ffordd o holi, yn enwedig wrth drafod materion sensitif; a
- damwain neu anaf sy'n digwydd yn ystod y cyfarfod.

Er mwyn lleihau tebygolrwydd y risgiau hyn, dylai arolygwyr:

- ddilyn y côd ymddygiad ar gyfer arolygwyr;
- cyfarfod grwpiau o ddysgwyr yn hytrach nag unigolion pan fo modd;
- cynnal cyfarfodydd mewn ystafelloedd y mae'n hawdd eu cyrraedd a'u gweld o'r ysgol, y coleg neu'r man gwaith;
- sicrhau y gall y rhai a gyfwelir adael yr ystafell yn hawdd pe byddent yn dymuno gwneud hynny;
- trefnu i weithio gydag oedolyn arall gerllaw; ac
- adrodd i'r arolygydd cofrestredig a chofnodi ar bapur fanylion unrhyw ddigwyddiad sy'n destun pryder.